Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllunio Morol: Deall y manteision a'r cyfleoedd

Mai 2017

# Cynllunio Morol

Mae ein moroedd yn darparu cyfoeth o wasanaethau ac adnoddau naturiol y mae pob un ohonom yn elwa arnynt – tywod i adeiladu, pysgod i'w bwyta, gofod i hamddena a mwynhau, hinsawdd sy'n cael ei reoleiddio, ynni glân i gefnogi ein ffyrdd o fyw, cyfrwng i deithio ac i fasnachu'n fyd-eang, a llawer mwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cynllunio morol yn gyfle i ddod â rhanddeiliaid a llunwyr polisïau ynghyd er mwyn lleihau cymhlethdod ac osgoi dyblygu. Mae iddo'r potensial i hwyluso camau i ddatblygu ardal forol Cymru mewn ffordd gynaliadwy i gefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a thrwy wneud hynny wneud y môr yn fwy perthnasol i ddyheadau pobl Cymru.

Fodd bynnag, gan fod cynllunio morol yn gymharol newydd mae'n bwysig cael dealltwriaeth glir o'r manteision y mae defnyddwyr y môr eisiau eu gweld yn y pen draw o ganlyniad i'r broses gynllunio morol yng Nghymru. Er mwyn sicrhau hyn, cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau lled-strwythuredig gydag aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol a budd-ddeiliaid morol ehangach yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd, ac fe'i defnyddir i lywio'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i lunio Cynllun Morol Cenedlaethol, ei roi ar waith a'i asesu.

Barn y rhanddeiliaid sydd yn y ddogfen hon am y manteision a'r cyfleoedd posibl sy'n deillio o gynllunio morol, ac nid barn Llywodraeth Cymru.








# Cynllunio morol – barn rhanddeiliaid am gyfleoedd a manteision

Mae deall yr hyn y mae rhanddeiliaid yn disgwyl ei gael o gynllunio morol yn allweddol i lywio'r modd yr ydym yn paratoi'r cynllun a'r modd y byddwn yn asesu ei effeithiolrwydd. Mae rhanddeiliaid Cymru wedi dweud wrthym fod y materion a ganlyn yn bwysig wrth roi cynllunio morol ar waith:

## Beth Ddylai'r Cynllun Morol ei Wneud?

Bydd y Cynllun Morol yn offeryn pwysig i reoli gweithgareddau pobl yn yr amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy. Dylai helpu i sicrhau bod Twf Glas yn gynaliadwy o safbwynt cymdeithasol ac ecolegol, a'i fod hefyd o fudd economaidd i Gymru. I sicrhau bod hyn yn llwyddiant, bydd yn hollbwysig dod i ddeall y gweithgareddau a'r traddodiadau pwysig sydd eisoes yn digwydd yn yr amgylchedd morol, yn ogystal â'r cyfleoedd a allai godi yn y dyfodol drwy'r broses cynllunio morol.

> ...arwain at ddull mwy cydgysylltiedig ac integredig.

Drwy'r cynllun morol, dylai'r gwaith o reoli'r amgylchedd morol ddod yn real i gymunedau'r arfordir. Gall wella cyfathrebu rhwng pawb sy'n defnyddio'r amgylchedd morol, hyrwyddo camau i reoli ein moroedd mewn ffordd gynaliadwy a rhoi mwy o sylw i werth arfordir Cymru i economi Cymru. Dylai ddarparu fframwaith clir i ddatblygu ein moroedd mewn ffordd gynaliadwy a fydd yn arwain at ddull mwy cydgysylltiedig ac integredig o'u rheoli. Bydd y Cynllun hefyd yn helpu i warchod cynefinoedd a rhywogaethau morol rhag iddynt gael eu hecsbloetio'n ormodol a'u diraddio, gan gefnogi trefn gynllunio well ar gyfer yr amgylchedd morol a fydd yn rhagweithiol ac nid yn adweithiol. Gallai helpu i bontio'r bylchau rhwng gweithgareddau sy'n cael eu trwyddedu a gweithgareddau nad ydynt yn cael eu trwyddedu. Fodd bynnag, i gyflawni hyn, mae angen i'r Cynllun symleiddio'r hyn y mae rheoli'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy'n ei olygu i bobl, a mynd ati i amlinellu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gwarchod yr amgylchedd hwnnw.

> ...i roi mwy o sicrwydd i ddiwydiannau, ac i warchod yr amgylchedd yn well.

Dylai cynllunio morol helpu i hybu datblygu cynaliadwy, i roi mwy o sicrwydd i ddiwydiannau, ac i warchod yr amgylchedd yn well yn y tymor hir. Bydd cynllunio morol hefyd yn helpu i ddisgrifio ac i godi proffil manteision gweithgareddau yn yr amgylchedd morol i gymdeithas ac i economi'r DU.

Dylai defnyddwyr y moroedd sy'n dewis pa weithgareddau i ymgymryd â nhw allu cael gafael ar sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr, a bydd y Porthol Tystiolaeth Morol ar-lein yn helpu i lywio eu hystyriaethau o'r dechrau'n deg. Gall y cynllun morol weithredu fel cronfa wybodaeth

ganolog ar gyfer yr amgylchedd morol – siop un stop i gael gafael ar wybodaeth am yr amgylchedd morol a sut i'w reoli.

Bydd tystiolaeth wedi'i chydgrynhoi yn helpu i leihau'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng buddiannau, a bydd yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Bydd y dystiolaeth sy'n ategu'r cynllun – gan ddangos hyd a lled yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig unigol a chydlyniant y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a phennu ardaloedd o ddiddordeb, adnoddau a phryderon arbennig – yn sicrhau bod yr hyn sy'n ofynnol yn yr ardaloedd dynodedig hyn yn amlwg i bawb sy'n rhoi cynigion gerbron. Gwelir hyn fel un o fanteision amlwg cynllunio morol, oherwydd mae'n golygu ei bod yn haws sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn gydnaws â'r gwaith o reoli adnoddau naturiol. Dylai Ardaloedd Adnoddau Strategol hefyd helpu i roi eglurder i gynllunwyr ac i ddatblygwyr. Drwy neilltuo ardaloedd ar gyfer gweithgareddau penodedig, gellir annog cydfodolaeth a lleihau'r gwrthdaro o ran gofod ac adnoddau. Bydd yn rhoi sicrwydd hirdymor o ran cyfeiriad y diwydiannau.

Dylai Ardaloedd Adnoddau Strategol hefyd helpu i roi eglurder i gynllunwyr ac i ddatblygwyr. Drwy neilltuo ardaloedd ar gyfer gweithgareddau penodedig, gellir annog cydfodolaeth a lleihau'r gwrthdaro o ran gofod ac adnoddau.

# Cynllunio Morol ar gyfer ein Heconomi

Bydd y Cynllun Morol yn cyflwyno fframwaith a fydd yn helpu i reoli gweithgarwch ac yn helpu i lywio buddsoddiad a thwf busnesau. Gall wneud cyfraniad gwerthfawr ac uniongyrchol i'r gwaith o baratoi buddsoddiadau busnesau unigol. Gan roi eglurder a hyder drwy ddull sy'n seiliedig ar gynllun, bydd yn meithrin datblygu cynaliadwy ac yn gosod llwyfan ar gyfer arloesi. O gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen, fel mapiau o'r hyn sy'n digwydd – er enghraifft, lleoliad y prif lwybrau morgludiant, lleoliad ceblau, hyd a lled yr ardaloedd gwarchodedig ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd pwysig, eu natur a'u gofynion – bydd yn cefnogi defnydd cynaliadwy drwy broses benderfynu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

...helpu i lywio buddsoddiad a thwf busnesau.

Mae angen i'r Cynllun Morol gydnabod yn llwyr yr ystod o weithgareddau sydd eisoes yn digwydd yn yr amgylchedd morol a'r diwydiannau pwysig sy'n darparu cyflogaeth a swyddi gwerthfawr i gymunedau arfordir Cymru. Mae llawer o'r diwydiannau hyn, gan gynnwys porthladdoedd, yn sefydlog ac yn rhai na ellir eu symud. Serch hynny, maent yn cynhyrchu incwm pwysig ar gyfer cymunedau'r arfordir, yn lleol ac ymhellach i ffwrdd. Yr her sy'n wynebu cynllunio morol yw ategu anghenion y diwydiannau traddodiadol hyn a tharo cydbwysedd rhyngddynt â buddiannau datblygwyr a gweithredwyr ehangach yn yr amgylchedd morol.

Gan roi eglurder a hyder drwy ddull sy'n seiliedig ar gynllun, bydd yn meithrin datblygu cynaliadwy ac yn gosod llwyfan ar gyfer arloesi.

Ni ddylai'r Cynllun Morol greu baich gweinyddol ychwanegol ac ni ddylai gymhlethu'r sefyllfa. Yn hytrach, dylai roi canllawiau eglur a buddiol i benderfynwyr ac i weithredwyr. Mae pryder y gallai polisïau cynllunio morol fynd y tu hwnt i'r gofynion deddfwriaethol presennol,

er enghraifft drwy gyflwyno polisïau llymach o ran Ardaloedd Gwarchodedig Morol (fel cyflwyno mesurau gwarchod sy'n mynd y tu hwnt i ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd neu Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir), ac o ran bioddiogelwch (ei gwneud yn ofynnol rhoi mesurau ar waith sy'n mynd y tu hwnt i Raglen Fesurau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol neu ofynion rheoleiddiol yr UE).

Mae angen gofalu bod polisi'r llywodraeth yn gyson ac yn gytbwys. Bydd hyn yn her pan fydd safbwyntiau'r rhanddeiliaid yn gwrthdaro â'i gilydd. Serch hynny, drwy weithio i feithrin cydweithrediad a chyd-ddealltwriaeth, bydd yn helpu i leihau'r perygl o gamddealltwriaeth, yn lleihau'r baich gweinyddol, ac yn symleiddio'r broses ar gyfer y rheini sy'n cyflawni neu'n cynllunio gweithgareddau yn ein moroedd. Dylai cynigion ddangos eu bod wedi dilyn yr arferion da perthnasol, gan gynnwys ymgysylltu'n gynnar ac yn effeithiol â'r holl randdeiliaid priodol.

Ni ddylai'r Cynllun Morol greu baich gweinyddol ychwanegol ac ni ddylai gymhlethu'r sefyllfa. Yn hytrach, dylai roi canllawiau eglur a buddiol i benderfynwyr ac i weithredwyr.

Mae gan gynllunio morol rôl bwysig i'w chwarae i helpu i warchod y llwybrau mordwyaeth allweddol a'u diogelu at y dyfodol i sicrhau bod digon o le ar y môr ar gyfer unrhyw gynnydd mewn traffig llongau yn sgil twf masnach, datblygu porthladdoedd a chyfleoedd adeiladu/cymorth ar gyfer diwydiannau alltraeth. Mae cynllunio morol yn gyfle i bennu ardaloedd twf posibl yn y dyfodol ar gyfer porthladdoedd a sectorau morgludiant ac i sicrhau bod modd cyflawni'r twf hwn ochr yn ochr â chamau i ddatblygu sectorau morol allweddol eraill mewn ffordd gynaliadwy. Gallai cynllunio morol helpu i wneud y gorau o'r manteision datblygu cynaliadwy a ddarperir gan y sector morgludiant o ran ei gyfraniad hollbwysig i economi Cymru ac i economi ehangach y DU, a'i rôl yn darparu cludiant rhad ar danwydd ar raddfa fawr.

Dylai cynllunio morol greu fframwaith ar gyfer proses benderfynu gyson sy'n defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael ac, o wneud hynny, gallai'r cynllun roi mwy o sicrwydd i'r diwydiant twristiaeth o ran lle i ddatblygu'r sector hwn yn gynaliadwy. Yr arfordir sy'n denu llawer o'r ymwelwyr sy'n dod i Gymru, a hynny oherwydd nad yw wedi'i ddifetha a bod modd gweld ein bywyd gwyllt morol. Yn ôl Cynghrair Twristiaeth Cymru, mae twristiaeth yn cyfrannu £2.7bn (5.8% o GDP Cymru) yn uniongyrchol i economi Cymru, ac mae hwn yn gyfraniad uwch nag unrhyw un o wledydd eraill y DU. Dywedir mai'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yw'r prif atyniad i'r rheini sy'n ymweld â Chymru (Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013).

Ymgymerwyd â gwaith i bennu gwerth twristiaeth bywyd gwyllt morol i economi Cymru[1]. Er enghraifft, canfu prosiect Mapio Gweithgarwch Cymru fod teithiau ar gychod i weld bywyd gwyllt yn y trydydd safle ar restr gwerth gweithgareddau ardal Tyddewi, gan arwain at wariant o £9.7m y flwyddyn. O dan y dŵr, mae Sir Benfro, Gŵyr ac Ynys Môn yn ymddangos yn fynych ar restr 10 safle deifio gorau'r DU yn ôl Clwb Tanddwr Prydain (BSAC). Amcangyfrifodd UKNEAFO (Cam 2) fod deifwyr yn ymweld â'r saith Ardal Cadwraeth Arbennig morol yng Nghymru rhwng 128,000 a 213,000 gwaith y flwyddyn[2]. Felly, mae'n

[1] Mapio Gweithgarwch Cymru: Prosiect a gomisiynwyd gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a Phorthladd Aberdaugleddau
[2] Asesiad Dilynol Ecosystemau Cenedlaethol y DU (UK NEAFO) www.uknea.unep-wcmc.org/




hanfodol bod unrhyw gynigion i ddatblygu'r sector twristiaeth bywyd gwyllt yn gydnaws â'r mesurau a gynigir yng nghynlluniau rheoli a gwella'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ac yn cefnogi'r mesurau hynny, er mwyn gwarchod yr asedau y mae twristiaeth bywyd gwyllt yn dibynnu arnynt.

O ystyried hyn, gall cynllunio morol gefnogi twristiaeth bywyd gwyllt drwy sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael ei choladu a'i defnyddio fel sylfaen ar gyfer y cynllun (e.e. cynlluniau rheoli'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig a data am gynefinoedd a rhywogaethau) a bod y cynllun yn mynd i'r afael â'r gwaith o warchod a gwella'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn ffordd strategol (fel ystyried y ffordd orau o warchod rhywogaethau sy'n symud o safle i safle a sut i ystyried effeithiau cyfunol ar yr ecosystem forol).

Dangosodd astudiaeth gan yr RSPB (2011) fod Gwarchodfa Natur Ynys Lawd ym Môn wedi denu gwariant o dros hanner miliwn o bunnoedd gan ymwelwyr â'r ardal honno yn 2009 a bod modd priodoli'r gwariant hwnnw'n uniongyrchol i dwristiaeth adar y glannau (ffigur sy'n debygol o fod wedi cynyddu ar ôl datblygu cyfleusterau newydd i ymwelwyr).[3] Yn yr un modd, amcangyfrifir bod Llwybr Arfordir Cymru wedi denu 2.82 miliwn o ymwelwyr rhwng Medi 2012 a Medi 2013, gan gyfrannu tua £32 miliwn i economi Cymru.[4] Yr hyn sy'n gwneud Llwybr Arfordir Cymru mor atyniadol i ymwelwyr yw'r cyfuniad o dirweddau a morweddau hardd ac amrywiol, atyniadau hanesyddol o safon uchel a chyfleoedd i wylio bywyd gwyllt ar hyd yr arfordir.

Amcangyfrifir bod Llwybr Arfordir Cymru wedi denu 2.82 miliwn o ymwelwyr rhwng Medi 2012 a Medi 2013, gan gyfrannu tua £32 miliwn i economi Cymru.

[3] RSPB (2011). Natural Foundations – Conservation and Local Employment in the UK. www.rspb.org.uk/Images/naturalfoundations_tcm9-291148.pdf

[4] Cyfoeth Naturiol Cymru (2013). The Economic Impact of Wales Coast Path Visitor Spending on Wales

Mae gwerth economaidd twristiaeth bywyd gwyllt morol Cymru a'r cysylltiad uniongyrchol rhyngddo ac ansawdd yr amgylchedd naturiol yn dangos manteision economaidd mynd ati i reoli gweithgareddau morol yn effeithiol o safbwynt gofodol yng Nghymru.

Dylai cynlluniau morol hefyd fod o fudd i weithgareddau cychod hamdden, mewn egwyddor, oherwydd byddant yn egluro'r broses benderfynu yn y parth arfordirol ac yn lleihau ansicrwydd. Mae cynllunio morol yn golygu y bydd pwysigrwydd a gwerth gweithgareddau cychod hamdden ar hyd arfordir Cymru'n cael eu cydnabod am y tro cyntaf mewn cyd-destun cynllunio statudol. Dylai sefydlu cynlluniau morol ar draws y DU warchod a gwella cyfleusterau cychod hamdden, gan ehangu a gwireddu'r manteision cynhenid i gymunedau'r arfordir.

Dylai cynlluniau morol alluogi datblygwyr i fynd ati'n gynnar i asesu ymhle y mae gweithgareddau cychod hamdden yn digwydd, fel llwybrau mordwyaeth pwysig, cyfleusterau clybiau/canolfannau hyfforddi, neu ardaloedd mordeithio a rasio, i sicrhau bod modd iddynt baratoi cynlluniau cydnaws. Fodd bynnag, ni ddylai cynlluniau morol gynyddu'r baich rheoleiddiol o ran cynnal na gwella cyfleusterau cychod hamdden a dylent sicrhau bod y gweithgareddau sy'n digwydd ar hyn o bryd yn cael eu gwarchod rhag cynigion datblygu.

Drwy bennu'r blaenoriaethau, y polisïau a'r trywydd ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol mewn aberoedd a dyfroedd morol, gallai cynllunio morol fod o fudd i ddefnyddwyr hamdden oherwydd bydd yn rhoi eglurder i bawb. Bydd y polisïau'n llywio penderfyniadau awdurdodau pan fyddant yn ystyried ceisiadau datblygu. Gall polisïau effeithio ar gynigion i gynnal neu i ehangu cyfleusterau cychod hamdden. Byddant yn fodd o reoli datblygiad os yw'n debygol o effeithio ar yr ystod o weithgareddau sy'n digwydd ar y môr.

> Mae cynllunio morol yn golygu y bydd pwysigrwydd a gwerth gweithgareddau cychod hamdden ar hyd arfordir Cymru'n cael eu cydnabod am y tro cyntaf mewn cyd-destun cynllunio statudol.



# Cynllunio morol ar gyfer ein cymdeithas a'n diwylliant

Gall Cynllun Morol Cymru helpu i ddangos sut y bydd ardal forol Cymru'n cefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Gellir gwneud hyn drwy fynegi blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol Cymru ar gyfer yr ardal forol sy'n adeiladu ar y gwaith i bennu adnoddau ac asedau Cymru. Gall y cynllun morol hefyd helpu i lywio prosesau trwyddedu morol a gallai helpu i liniaru rhai o'r heriau a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r broses drwyddedu a chaniatâd morol ar hyn o bryd.

Dylid annog cynigion sy'n cyfrannu at lesiant cymunedau'r arfordir. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau cynllunio, gan ystyried yr angen am dwf economaidd a swyddi ochr yn ochr ag effaith gweithgareddau ar ein hadnoddau naturiol. Mae manteision cynaliadwyedd hirdymor i'n cymunedau, ein heconomi a'n hamgylchedd yn hollbwysig i iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Gall cynllunio morol gyfrannu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol at iechyd ein cymunedau. Mae gweithgareddau cytbwys a gynllunnir yn ein hardal forol yn hwyluso defnydd cynaliadwy o'r gofod morol, gan gynnwys gweithgareddau hamdden. Gall y cynllun annog pawb sy'n berthnasol i gynnal a/neu i wella mynediad i'r amgylchedd morol. Darperir canllawiau am hyd a lled y mynediad hwn, a'r defnydd ohono, yn y cynllun i sicrhau bod manteision gweithgareddau hamdden a gynllunnir a phwysigrwydd mynediad addas yn amlwg i bawb sy'n darllen neu'n defnyddio'r cynllun.

Dylid annog cynigion sy'n ategu'r rhinweddau esthetig sylweddol, cymeriad unigryw'r arfordir, a'r bywyd gwyllt amrywiol a geir yn ein hardaloedd morol. Mae moroedd ac ardaloedd arfordirol iach a glân yn sylfaen gadarn ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol pobl. Gellir tynnu sylw at bolisïau sy'n ymwneud â mynediad i'r ardal forol a chyfleoedd i'w gwella i sicrhau manteision lluosog, gan gynnwys gweithgareddau hamdden, a hynny er mwyn cynyddu mwynhad a defnydd o'n moroedd. Mae'r manteision hyn yn cefnogi cymunedau'r arfordir, a gall y bobl sy'n ymweld â'r arfordir a'n hardal forol fanteisio arnynt hefyd.

Gallai'r cynllun morol gyfrannu tuag at fentrau sy'n mynd i'r afael â thlodi plant yng nghymunedau'r arfordir a ledled Cymru drwy ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael blas ar yr amgylchedd naturiol a dysgu ohono. Bydd amgylchedd morol iach yn hwyluso gweithgareddau hamdden awyr agored ac yn hybu iechyd. Gall y polisïau sydd yn y cynllun roi cyfarwyddyd clir sy'n nodi ei bod yn ofynnol i bawb sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â gweithgareddau arfaethedig gymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o lygru'r amgylchedd morol er mwyn diogelu ein cymunedau a'r amgylchedd y maent yn ffynnu ynddo.

...cefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

...drwy fynegi blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol Cymru ar gyfer yr ardal forol sy'n adeiladu ar y gwaith i bennu adnoddau ac asedau Cymru.

Dylid annog cynigion sy'n cyfrannu at lesiant cymunedau'r arfordir.

Dylai'r cynllun hefyd roi cyfarwyddyd clir ynglŷn â defnyddio, gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg. Safonau'r Gymraeg fydd yn llywio'r gwaith yn y maes hwn. Dylai diwylliant Cymru – ein llenyddiaeth a'n hanes – gael ei gydnabod a'i drysori. Dylai'r cynllun sicrhau bod cynigion yn dangos sut y cafodd unrhyw effeithiau posibl ar asedau hanesyddol neu ddiwylliannol a'u lleoliadau eu hystyried. Mae ein hasedau hanesyddol yn dylanwadu ar ein hunaniaeth genedlaethol, yn cefnogi addysg cenedlaethau'r dyfodol, ac yn dangos ein treftadaeth i ymwelwyr o bob math sy'n cael eu swyno gan yr hyn sydd gennym i'w gynnig.

# Cyfrannu at Gydnerthedd Ecosystemau

Mae cynllunio morol yn ceisio sicrhau bod ein moroedd yn cael eu datblygu mewn ffordd gynaliadwy. Dylai gynnwys amcanion i hybu twf glas drwy gynyddu ein defnydd o'r cyfoeth o adnoddau naturiol morol, gan sicrhau ar yr un pryd fod yr ecosystemau morol yn gydnerth. Bydd y cynllun morol yn helpu i bennu ardaloedd lle gellir defnyddio'r moroedd mewn ffyrdd newydd – er enghraifft, ynni adnewyddadwy morol – a bydd hefyd yn gwarchod ac yn cefnogi'r dulliau presennol o'u defnyddio, gan gynnwys morgludiant neu dwristiaeth a hamdden sydd o bwys strategol ac a allai dyfu ymhellach.

Un o brif fanteision cynllunio morol yn y DU yw bod cynlluniau morol yn cael eu datblygu ar sail ecosystemau, yn unol â chyfarwyddyd Datganiad Polisi Morol y DU. Golyga hyn fod cynlluniau'n cael eu paratoi mewn ffordd dryloyw sy'n ystyried ac yn cynnwys pob grŵp sydd â diddordeb, yn taro cydbwysedd rhwng twf economaidd ac anghenion cymdeithasol a chadwraeth, ac yn cydnabod terfynau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol.

Gall y cynllun annog cynigion sy'n cynnwys ffyrdd o addasu i newid hinsawdd a'i liniaru. Dylai'r cynllun roi cyfarwyddyd clir y dylai pob cynnig ddangos sut y mae'n cyfrannu at warchod, adfer a gwella ecosystemau morol. Dylai cynllunio morol helpu i wella'r dull o asesu a rheoli'r rhyngweithio rhwng gwahanol ddiwydiannau, yn enwedig mewn ardaloedd gwarchodedig ac o ran rhywogaethau sy'n symud o le i le nad ydynt yn gysylltiedig â safle gwarchodedig.

Mae cynllunio morol yn gyfle i reoli'r amgylchedd morol yn well er budd yr economi leol heb niweidio'r amgylchedd. Bydd yn hyrwyddo defnydd buddiol o'n moroedd yn hytrach nag adweithio i ddatblygiadau yn yr amgylchedd morol. Gall helpu i bennu'r ardaloedd gorau yng Nghymru i ehangu twristiaeth bywyd gwyllt morol yn strategol, gan wneud hynny mewn ffordd gyfrifol, gadarnhaol a sensitif heb ddifrodi na diraddio'r asedau y mae'n dibynnu arnynt. Roedd astudiaeth gan Land Use Consultants (2004) yn nodi, dadansoddi a mapio'r data presennol am weithgareddau hamdden o safbwynt eu cydnawsedd ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Nododd yr archwiliad fannau lle ceir llawer o weithgareddau sy'n amlwg yn gorgyffwrdd â dynodiadau cadwraeth

> Dylai'r cynllun roi cyfarwyddyd clir y dylai pob cynnig ddangos sut y mae'n cyfrannu at warchod, adfer a gwella ecosystemau morol. Mae cynllunio morol yn helpu i wella'r dull o asesu a rheoli'r rhyngweithio rhwng gwahanol ddiwydiannau, a'u heffeithiau cronnus, yn enwedig mewn ardaloedd gwarchodedig ac o ran rhywogaethau sy'n symud o le i le nad ydynt yn gysylltiedig â safle gwarchodedig.

natur a thirwedd, gan dynnu sylw at atyniad yr ardaloedd hyn ar gyfer gweithgareddau twristiaeth.

Dylai cynllunio morol asesu gallu'r gwasanaethau ecosystem yn ardal y cynllun i ymdopi â newid neu weithgareddau pellach. Gallai hynny arwain at bennu a mapio'r ardaloedd lle ceir y cyfyngiadau lleiaf a fyddai'n gallu ymdopi â gweithgareddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â bywyd gwyllt morol yn y dyfodol.

Gall cynllunio morol hefyd gyfeirio'r gweithredwyr presennol a gweithredwyr newydd posibl at y Codau Ymddygiad sy'n bodoli o ran bywyd gwyllt morol, fel gwaith gwerthfawr Fforwm Arfordir Penfro a'i God Ymddygiad Morol. Mae'r Cod Morol a lansiwyd yn Sir Benfro yn 2005 wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran hybu camau i reoli'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r Cod hwn wedi esblygu dros y blynyddoedd, gan daro cydbwysedd rhwng safbwyntiau cyrff cadwraeth a buddiannau ehangach, fel sefydliadau bywyd gwyllt a gweithredwyr busnesau twristiaeth. Er mwyn i'r cod weithio yn ymarferol mae angen darparu ffocws a sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymrwymo i'r cod drwy gael deialog agored a chadarnhaol. Mae wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran dod â gweithredwyr teithiau a gweithredwyr cychod dŵr personol at ei gilydd.

Gall cynllunio morol hefyd gyfeirio'r gweithredwyr presennol a gweithredwyr newydd posibl at y Codau Ymddygiad sy'n bodoli o ran bywyd gwyllt morol.

Gan adeiladu ar lwyddiant y Cod Morol, mae Fforwm Arfordir Penfro'n ystyried datblygu Cod Morol ar gyfer Marinas i greu cystadleuaeth iach ymhlith y marinas sydd wedi'u lleoli ar hyd arfordir Sir Benfro. Gallai'r fenter gynnwys gofyniad am i bob deiliad angorfa gael copi o'r Cod Morol wrth law i'w ddarllen a'i ddefnyddio fel y bo'n briodol. Gallai'r fenter hefyd gynnwys cynllun rhoddion gan ymwelwyr a allai greu refeniw ychwanegol y mae ei angen yn fawr i'w wario ar brosiectau lleol ym maes yr amgylchedd a chynaliadwyedd.



# Darparu Synergedd ac Eglurder ar draws Ffiniau a Sectorau

Bydd cynllunio morol yn annog defnyddwyr y môr i gyfathrebu â'i gilydd yn well. Dylai hyn wella'r ddealltwriaeth o'r synergedd posibl rhwng gwahanol ddulliau o ddefnyddio'r moroedd (a gallai, er enghraifft, arwain at gasglu tystiolaeth ar y cyd), ac at broses benderfynu fwy gwybodus. Dros gyfnod, dylai'r ddealltwriaeth a'r dystiolaeth well lywio'r gwaith cynllunio gofodol ei hun.

Bydd cynllunio morol yn annog defnyddwyr y môr i gyfathrebu â'i gilydd yn well.

I sicrhau bod cynllunio morol yn offeryn rheoli effeithiol, bydd angen integreiddio, croesgyfeirio a chydlynu gwaith yr awdurdodau cynllunio ar y tir a'r môr mewn llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd hefyd yn berthnasol i'r awdurdodau cynllunio cyfagos yn Lloegr, Ynys Manaw ac Iwerddon. O wneud hyn, bydd yn haws i'r rheini sy'n rhoi cynigion gerbron a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ddefnyddio'r cynllun. Bydd trefn cynllunio morol esmwyth sy'n seiliedig ar wybodaeth yn cadw costau cyffredinol a chostau prosiectau unigol (o ran arian ac amser) mor isel â phosibl ac yn osgoi'r angen i groesgyfeirio ac i ailgyflwyno cynigion.

Gall y Cynllun Morol fod yn gyfrwng i feithrin cysylltiadau da rhwng nifer o sectorau a buddiannau o ran rheoli adnoddau naturiol yr amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo dau fuddiant yn cystadlu â'i gilydd. Drwy ddarparu mwy o eglurder a chanllawiau ynghylch natur y gweithgareddau a'r rhyngweithio rhyngddynt, gall y drefn gynllunio helpu i gymell y sectorau perthnasol i drin a thrafod materion ac i gydweithredu ymlaen llaw.

Drwy ddarparu mwy o eglurder a chanllawiau ynghylch natur y gweithgareddau a'r rhyngweithio rhyngddynt, gall y drefn gynllunio helpu i gymell y sectorau perthnasol i drin a thrafod materion ac i gydweithredu ymlaen llaw.

Darparu eglurder yw un o'r prif heriau sy'n wynebu cynllunio morol yn y DU, yn enwedig wrth fynd i'r afael â sawl trefn wahanol sydd ar waith ar draws ffiniau datganoledig a ffiniau awdurdodaethau. Mae'n hollbwysig mynd i'r afael â chynllunio morol yn nyfroedd Cymru a Lloegr mewn ffordd gyson. Ni fydd anghysondebau rhwng Cymru a Lloegr ond yn peri ansicrwydd i ddatblygwyr a defnyddwyr y moroedd. Bydd yn creu rhwystrau diangen a fydd yn llesteirio yn hytrach na hybu camau i reoli ein moroedd a'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy.

Gallai cynllunio morol helpu i osod sylfaen ar gyfer datblygu prosiectau a gweithgareddau morol, drwy gyfeirio at gyfleoedd a heriau, gan gynnwys cyfleoedd i gydleoli gweithgareddau, ac annog ymgysylltu â'r sectorau, y rhanddeiliaid a'r defnyddwyr perthnasol, i helpu i wneud y gorau o gyfraniad yr ardal forol at flaenoriaethau cenedlaethol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cryn botensial i gydleoli gweithgareddau yn yr amgylchedd morol ac i gynnal gweithgareddau amgen ar sail tystiolaeth a data cadarn. Bydd deall y rhyngweithio rhwng morgludiant a sectorau morol eraill yn helpu penderfynwyr i lunio'r atebion gorau posibl o ran cynllunio morol. Drwy rannu gwybodaeth, bydd gwell cyfleoedd i gydleoli morgludiant a gweithgareddau pwysig eraill yn yr amgylchedd morol,

Mae cryn botensial i gydleoli gweithgareddau yn yr amgylchedd morol.

gan gynnwys ynni adnewyddadwy alltraeth, chwilio am olew a nwy, amddiffyn a diogelwch cenedlaethol, telathrebu, agregau a charthu morol, pysgodfeydd, twristiaeth a hamdden ac ardaloedd morol gwarchodedig. Gan fod disgwyl i'r sector ynni morol dyfu, bydd mwy o alw am osodiadau newydd yn y dyfodol – bydd hyn yn golygu bod mwy o alw am geblau pŵer hefyd. Gall cynlluniau morol helpu i fynd i'r afael â hyn drwy hybu mwy o synergedd rhwng sectorau, gan oresgyn heriau ac atal gwrthdaro rhag codi yn y lle cyntaf.

Drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ecosystemau a chyfrif am ddefnyddwyr a defnydd posibl o'r amgylchedd yn y dyfodol, gall cynllunio morol sicrhau bod adnoddau naturiol morol yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy a theg. Mae hyn yn helpu i hybu synergedd rhwng sectorau ac i atal camddealltwriaeth a gwrthdaro. O ragnodi elfennau ardal forol Cymru yn ofodol, bydd yn helpu i osgoi gwrthdaro neu gystadleuaeth. O flaenoriaethu defnydd mewn ardaloedd penodol ac ar gyfer sectorau penodol yn y dyfodol, bydd yn helpu i roi sicrwydd ac eglurder ynghylch y cyfleoedd a fydd ar gael yn y dyfodol.

Gall llawer o weithgareddau gydfodoli, ac maent eisoes yn gwneud hynny, a bydd y cynllun yn cefnogi'r cydfodoli hwn er mwyn gwneud y gorau o'r manteision yr ydym yn eu cael o'n hadnoddau naturiol morol dros y tymor hir.

Bydd y Porthol Cynllunio Morol yn adnodd rhyngweithiol arbennig o effeithiol i ddarlunio dosbarthiad gweithgareddau dynol a'r adnoddau naturiol ym moroedd Cymru. Bydd modd i gynllunwyr ddefnyddio'r data

Bydd y Porthol Cynllunio Morol hefyd yn helpu i ddarlunio gwahanol weithgareddau gyda'i gilydd, a bydd hwn yn gam cyntaf pwysig i ystyried sut y mae gweithgareddau sectorau'n gorgyffwrdd â'i gilydd a sut y gellir cynllunio a chydgysylltu gweithgareddau'n well.



a ddarperir drwy'r Porthol i bennu cyfleoedd datblygu, fel ardaloedd o amgylch arfordir Cymru sy'n addas i fanteisio ar adnoddau ynni. Am y tro cyntaf, bydd modd i fuddsoddwyr posibl o bob rhan o'r byd ddefnyddio'r wybodaeth hon am ein blaenoriaethau polisi a'r hyn sy'n digwydd yn ein hamgylchedd morol i lywio eu cynlluniau busnes o'r dechrau'n deg.

Bydd y Porthol Cynllunio Morol hefyd yn helpu i ddarlunio gwahanol weithgareddau gyda'i gilydd, a bydd hwn yn gam cyntaf pwysig i ystyried sut y mae gweithgareddau sectorau'n gorgyffwrdd â'i gilydd a sut y gellir cynllunio a chydgysylltu gweithgareddau'n well. Gallai hyn helpu'r Cynllun Morol i bennu ei gyfeiriad strategol, i leihau prosesau ymgeisio, ac i fynd i'r afael â phryderon datblygwyr. Drwy roi manylion i'r datblygwyr am yr hyn sy'n ofynnol, gall cynllun o'r fath helpu i leihau biwrocratiaeth yn sylweddol. Drwy roi mwy o eglurder ynghylch cynllunio morol gofodol, bydd hefyd yn helpu datblygwyr i ystyried yr hyn sy'n bosibl mewn lleoliadau penodol ac i gyflwyno cynigion a chamau gweithredu yn unol â hynny. Gellid gwneud cais i gael data ar lefel fwy lleol drwy'r Porthol. Gallai hyn roi cymorth pwysig a chost-effeithiol i fusnesau i lywio eu hystyriaethau cychwynnol, cyn iddynt benderfynu sut i fwrw ymlaen.

Mae'r dystiolaeth sy'n ategu'r cynllun – gan ddangos hyd a lled yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig unigol a chydlyniant y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a phennu ardaloedd o ddiddordeb, adnoddau a phryderon arbennig – yn sicrhau bod yr hyn sy'n ofynnol yn yr ardaloedd dynodedig hynny'n amlwg i bawb sy'n rhoi cynigion gerbron. Gwelir hyn fel un o fanteision amlwg cynllunio morol, oherwydd mae'n hwyluso camau i sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn gydnaws â'r gwaith o reoli adnoddau naturiol.

# Dysgu Gwersi a Gwneud y Gorau o Gyfleoedd

Mae cynllunio morol yn broses newydd. Bydd gwireddu gweledigaeth a dyheadau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn her, ond gellir gwneud hyn drwy gydweithio â phartneriaeth rhwng rhanddeiliaid sy'n rhannu diddordeb mewn rheoli'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd y prosesau gwerthuso, monitro ac adrodd yn mesur y camau i roi'r cynllun ar waith a'r perfformiad. Bydd yn bwysig dysgu drwy wneud – mynd ati i roi'r cynllun ar waith, i werthuso ei effeithiolrwydd, i ystyried y newidiadau a wnaed, ac i addasu iddynt. Mae Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru[5] eisoes wedi'i gyhoeddi a dylai gael ei ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth bob amser ar gael i ddatblygwyr, gweithredwyr a defnyddwyr i gefnogi eu prosesau cynllunio a phenderfynu.

> Bydd yn bwysig dysgu drwy wneud – mynd ati i roi'r cynllun ar waith, i werthuso ei effeithiolrwydd, i ystyried y newidiadau a wnaed, ac i addasu iddynt.

Mae'n bwysig cofio mai cam ar y daith yw cyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ac nad yw'n ddigwyddiad ynddo'i hun. Bydd angen mynd ati i reoli disgwyliadau, gan daro cydbwysedd rhwng uchelgais a

[5] www.llyw.cymru/docs/drah/publications/151008-wales-marine-evidence-report-master-october-2015-en.pdf (Saesneg yn unig)

phragmatiaeth. O wrthsefyll y demtasiwn i fentro'n rhy bell yn rhy gynnar, bydd yn helpu i ffrwyno disgwyliadau.

Mae cynlluniau morol yn bodoli'n barod mewn gwahanol rannau o'r DU a gallant fod yn ddefnyddiol iawn er mwyn llywio'r cynnydd yng Nghymru. Mae cynllunwyr morol Cymru yn cynnal deialog agos â'r Sefydliad Rheoli Morol yn Lloegr, ac mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol i ddylanwadu ar broses cynllunio morol Cymru. Yn ogystal, mae canllawiau arfer da eisoes ar gael sy'n dangos ffyrdd ymarferol o oresgyn anawsterau mewn rhai sectorau, er enghraifft, rhwng cychod hamdden ac ynni adnewyddadwy neu ddyframaethu.

Gellir dysgu gwersi hefyd o'r dulliau a ddefnyddir mewn rhanbarthau a gwledydd eraill, yn enwedig yr Almaen, Denmarc, yr Iseldiroedd, Gwlff Maine, Canada a Seland Newydd. Fodd bynnag, mae pob dull yn wahanol. Maent yn gweithredu ar wahanol raddfeydd ac maent wedi'u llunio a'u teilwra i ateb gofynion y rhanbarthau a'r gwledydd perthnasol. Mae maint y cyfalaf ariannol a dynol sy'n cefnogi'r dulliau hyn hefyd yn amrywio'n sylweddol, gan adlewyrchu maint yr ymdrechion a'r heriau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i randdeiliaid ymgysylltu â'r cynllun drwy gydol y broses o'i ddatblygu. Rydym wedi ymgysylltu'n sylweddol â rhanddeiliaid drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun, gan gydweithio ag amryw o randdeiliaid â gwahanol fuddiannau drwy grwpiau adborth rhyngweithiol, gan gynnwys y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol. Cafodd ymgysylltu o'r fath ei hwyluso'n dda ac mae rhanddeiliaid wedi cael cyfle i roi sylwadau ar ddrafftiau cychwynnol o'r cynllun. Er bod gan randdeiliaid eu buddiannau eu hunain, drwy ddod â rhanddeiliaid ynghyd, mae defnyddwyr wedi cydweithio â'i gilydd a chydlynu syniadau. Mae hyn yn debygol o gynyddu'r ymrwymiad i'r cynllun pan gaiff ei fabwysiadu.

Mae angen i'r cynllun morol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a'r sectorau â buddiant. I wneud hyn, mae angen deall natur draddodiadol, diwylliannol a thymhorol cymunedau a busnesau'r arfordir y bydd cynllunio morol yn effeithio arnynt yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig sicrhau perchnogaeth.

Ni ddylid ystyried newid fel bygythiad o reidrwydd, ond yn hytrach fel cyfle. Mae'n hollbwysig ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau a sicrhau eu bod yn gwybod bod y cynllun yn berthnasol iddyn nhw a'u bywydau o ddydd i ddydd. Gellir gwneud hyn drwy bennu hyrwyddwyr gweithgarwch ar gyfer sectorau penodol i sbarduno diddordeb cymunedau a'u hannog i weithredu. Roedd y gwaith o baratoi 'Ymgysylltu â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cynllun Hamdden i Sir Benfro' yn esiampl lwyddiannus lle daeth dros 80 o ymatebion i law. Yn dilyn y ddeialog gadarnhaol hon paratowyd cynllun gweithredu. Erbyn hyn, mae'r rhanddeiliaid yn adolygu'r cynnydd a wneir bob blwyddyn ac yn helpu i gefnogi'r camau i roi'r cynllun ar waith.

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun morol.

Mae angen i'r Cynllun Morol hyrwyddo prosesau cynllunio a phenderfynu clir a thryloyw, gan sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith i ddatrys materion sy'n gwrthdaro â'i gilydd mewn ffordd dryloyw. Dylai hefyd greu trefn gynllunio a thrwyddedu fwy effeithiol ac effeithlon, gyda fframwaith mwy eglur o ran sut y penderfynir bod cynnig o fudd i'r gwaith o reoli'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy.

I sicrhau ei fod yn llwyddo, mae angen i gynllunio morol gael ei barchu. Mae angen i randdeiliaid gredu ei fod yn gam cadarnhaol, ac mae angen i ddiwydiant ei ddefnyddio fel sylfaen gadarn a buddiol i sicrhau bod y gwaith o reoli'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy yn creu twf a swyddi, yn ogystal â gwella llesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae angen i gynllunio morol gael sail dystiolaeth gref ac integredig i gefnogi penderfyniadau ynghylch defnyddio'r amgylchedd morol yn y dyfodol, a darparu dull effeithiol o ddylanwadu ar brosesau penderfynu a chynlluniau daearol i ateb gofynion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn well. Ni ddylid ystyried mai cyhoeddi cynllun morol yw diwedd y broses. Mae'n pennu trywydd, ac mae'n hollbwysig mynd ati i'w gyflawni. Mae angen i ddatblygwyr, rheoleiddwyr a phawb sydd â diddordeb yn y ffordd y caiff y môr ei reoli yn y dyfodol ddefnyddio'r cynllun morol. Bydd hon yn dasg anodd, ond gellir ei chyflawni drwy ganllawiau, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrwy gael deialog gadarnhaol.

I sicrhau ei fod yn llwyddo, mae angen i gynllunio morol gael ei barchu. Mae angen i randdeiliaid gredu ei fod yn gam cadarnhaol, ac mae angen i ddiwydiant ei ddefnyddio fel sylfaen gadarn a buddiol i sicrhau bod y gwaith o reoli'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy yn creu twf a swyddi, yn ogystal â gwella llesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.



# Cyd-destun polisi cynllunio morol

Bydd gweithredwyr a rheoleiddwyr bach, canolig a mawr yn elwa o gynllunio morol, a bydd disgwyl iddynt ddilyn yr un cynllun, gan sicrhau bod y broses benderfynu ar gyfer datblygiadau o bob math yn dryloyw ac yn gyson. Bydd cynllunio morol yn darparu gwybodaeth a chanllawiau a fydd yn helpu'r rhai sy'n defnyddio'r môr i wneud dewisiadau a phenderfyniadau cynaliadwy ynghylch gweithgareddau yn ein hamgylchedd morol. Bydd yn egluro'r rhyngweithio yn yr amgylchedd morol a'r ffordd y mae'n cael ei reoli. Bydd yn gwneud hyn drwy ddarparu cyd-destun polisi clir ar gyfer y broses benderfynu, yn yr un modd ag y mae polisi cynllunio Cymru a Chynlluniau Datblygu'r Awdurdodau Lleol yn llywio'r modd y mae gofod yn cael ei ddefnyddio ar y tir.


Gan ganolbwyntio ar hybu twf glas, rydym yn cydnabod y gall gweithredu ar sail cynllun sy'n seiliedig ar ecosystemau ac ar egwyddorion cynaliadwyedd wneud cyfraniad pwysig at gyflawni nodau llesiant Cymru, a hynny drwy lywio penderfyniadau ar y modd y caiff adnoddau naturiol morol eu defnyddio yn y dyfodol.

Ni chaiff manteision cynllunio morol eu gwireddu ar unwaith. Mae hon yn ffordd newydd o weithredu a bydd yn cymryd amser i'w rhoi ar waith ac iddi gael effaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o ymrwymiadau i fynd ati mewn ffordd fwy integredig i reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau polisi a diwygiadau deddfwriaethol pellgyrhaeddol, fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd cynllunio morol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru fel rhan o'r cyd-destun ehangach hwn. Drwy ddefnyddio dull rheoli ar lefel ecosystemau, fel sy'n ofynnol o dan ddatganiad polisi morol y DU, mae cynllunio morol yn cefnogi'r ymrwymiadau hyn.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf ystyried y tymor hir, a chydweithio'n well â phobl a chymunedau i fynd ati mewn ffordd fwy cydgysylltiedig i gyflawni'r saith nod llesiant.

Mae gofynion y Ddeddf yr un mor berthnasol i'r ardal forol o safbwynt y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf, ac felly mae'r Ddeddf hefyd yn berthnasol i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru o ran y ddyletswydd y mae'n ei rhoi ar Weinidogion Cymru. Yn y Ddeddf, cyflwynwyd egwyddor datblygu cynaliadwy i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau.

**Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**




Proses integredig sy'n cynnwys dull rheoli ar lefel ecosystemau, fel sy'n ofynnol yn Natganiad Polisi Morol y DU yw cynllunio morol. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith ac yn cefnogi rheoli adnoddau naturiol morol mewn ffordd gynaliadwy.

| Egwyddor datblygu cynaliadwy | Rhoi cynllunio morol ar waith |
|---|---|
| Edrych i'r **tymor hir** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain; | Bydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (y Cynllun) yn bwrw golwg dros yr ugain mlynedd nesaf a bydd yn ystyried tueddiadau cyfredol a thueddiadau posibl yn y dyfodol, yn ogystal â chydnabod goblygiadau newid hinsawdd. Drwy hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd morol, bydd yn canolbwyntio ar reoli gweithgareddau dros y tymor hir ac integreiddio'r broses benderfynu. |
| Cymryd **ymagwedd integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau; | Mae cynllunio morol yn ystyried y rhyngweithio rhwng y tir a'r môr, gan roi egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ar waith. Bydd y Cynllun yn ystyried y ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol ym maes cynllunio ar y tir, ynghyd â chynlluniau rheoli perthnasol eraill. Bydd yn cyflwyno cyfres integredig o bolisïau a fydd yn trin a thrafod pob agwedd ar reoli adnoddau naturiol a defnyddio amgylchedd morol Cymru. Cafodd y polisïau hyn eu llunio yn unol â nodau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; | Mae'r broses gynllunio'n gynhwysol ac mae'n sicrhau bod pob grŵp â diddordeb yn cael cyfle i roi sylwadau ar y Cynllun ar adegau amrywiol. Mae'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn nodi cyfleoedd i ymgysylltu. Rhannwyd drafft cychwynnol o'r Cynllun ar-lein i gael adborth cynnar arno a chyfle i'w fireinio. Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hystyried yn ystod y broses o lunio'r Cynllun. |
| Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir; | Mae angen cydweithio ag ystod eang o arweinwyr polisi a rhanddeiliaid er mwyn ymgymryd â gwaith cynllunio morol. Gwneir hyn drwy broses gynhwysfawr i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda chyfraniadau gan gydweithwyr polisi mewnol Llywodraeth Cymru yn ogystal â rhanddeiliaid. I helpu i hwyluso'r gwaith o baratoi'r Cynllun, sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â grŵp cynghori trosfwaol o randdeiliaid a Bwrdd Llywodraethu ar wahân. Mae'r ymgysylltu hwn ar lefel uchel wedi helpu i lywio'r gwaith cydweithredol hwn. |
| Deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd ac ystyried a ddylid newid y ffordd yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau ar hyn o bryd. | Mae mynd i'r afael â'r gwaith o lunio polisi morol a chynllunio morol ar sail tystiolaeth yn hollbwysig i lwyddiant y Cynllun. Mae'n fodd o ystyried cymhlethdodau'r amgylchedd morol yn well ac o roi ymyriadau priodol ar waith i'w reoli'n well yn y dyfodol. Drwy ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid, bu modd nodi amryw o heriau a chyfleoedd, yn ogystal ag ymchwil sy'n dod i'r amlwg a thystiolaeth y bydd ei hangen yn y dyfodol. Bydd y Cynllun yn cael ei rannu, ei werthuso a'i fonitro. Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn berthnasol ac yn hyblyg i wynebu'r heriau a'r cyfleoedd a fydd yn codi yn y dyfodol. |

Bydd y Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisïau integredig i lywio'r gwaith o lunio cynigion ac o benderfynu ar y modd y caiff ein hadnoddau naturiol morol eu defnyddio.

Bwriedir i'r gyfres o bolisïau a geir yn y cynllun strategol gyfrannu at bob un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | **Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl.**<br>Gall y Cynllun gydnabod pwysigrwydd a photensial ein hadnoddau naturiol morol o ran llesiant ynghyd â gwerth cefnogi a hybu twf glas. Bydd yn cefnogi'r camau i greu cymdeithas carbon isel drwy bolisïau sy'n cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd. Bydd hyn yn sicrhau bod cynigion newydd yn ystyried y rhagolygon o ran newid hinsawdd a'r cynlluniau rheoli traethlin.<br>Dylai polisïau'r Cynllun gefnogi prosiectau sy'n hybu twf glas ac sy'n darparu manteision economaidd amlwg. Ceir cysylltiadau cryf hefyd rhwng rheoli amgylchedd morol Cymru mewn ffordd gynaliadwy a llewyrch cymunedau'r arfordir yn y dyfodol. Bydd y rhyngddibyniaeth agos hon yn darparu cyfleoedd i greu mwy o swyddi ac i greu cyfoeth. |
| **Cymru gydnerth** | **Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).**<br>Gall y Cynllun gynnwys polisïau a fydd yn cefnogi camau i warchod ac i adfer bioamrywiaeth forol ac ecosystemau morol. Mae'r weledigaeth yn cydnabod bod ecosystemau iach, gweithredol yn ategu ac yn cefnogi cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd. Mae polisïau sy'n cefnogi camau i adfer ecosystemau yn helpu i bennu cyfleoedd i sicrhau buddion niferus o'r ecosystemau. |
| **Cymru iachach** | **Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.**<br>Gall cynllunio morol gyfrannu at iechyd cymunedau'r arfordir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Gall gweithgareddau cytbwys a gynllunnir yn ein hamgylchedd morol helpu i hwyluso defnydd cynaliadwy o'r gofod morol, gan gynnwys gweithgareddau hamdden.<br>Mae moroedd ac ecosystemau glân ac iach yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol pobl. Gallai'r Cynllun gynnwys polisïau sy'n ymwneud â mynediad, hybu gweithgareddau hamdden, a gwella'r ardal forol ehangach i sicrhau manteision niferus, gyda golwg ar gynyddu mwynhad a defnydd o'r ardal forol. Bydd cynllunio morol yn helpu i hwyluso'r cysylltiadau rhwng gweithgareddau sy'n ymddangos yn gwbl wahanol i'w gilydd i gefnogi'r nod o greu Cymru iachach. |

| | |
|---|---|
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | **Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).**<br>Mae cynllunio morol yn cael ei ddatblygu mewn ffordd agored a thryloyw. I wneud hyn, rydym wedi trefnu fforymau ymgysylltu ehangach i gasglu barn pobl yn ogystal â rhannu dogfennau drafft â rhanddeiliaid allweddol. Roedd gofyn am farn ac arbenigedd llawer o randdeiliaid gwahanol yn rhan annatod o'r gwaith o lunio'r Cynllun a sicrhau polisïau â chydbwysedd priodol i gefnogi Datblygu Cynaliadwy. O ganlyniad, cynlluniwyd y polisïau er mwyn cael cydbwysedd priodol i gefnogi Datblygu Cynaliadwy er budd pob cymuned. Mae'r gwaith hwn o rannu'r dystiolaeth orau sydd ar gael i hwyluso proses benderfynu dryloyw sy'n seiliedig ar gynllun hefyd wedi cefnogi cyfle cyfartal. Mae hyn wedi ein helpu i lunio polisïau sydd o bwys mawr i'r ffordd y caiff ein moroedd eu defnyddio yn y dyfodol. Am y tro cyntaf, bydd cynllunio morol yn darparu ystod eang o ddata a gwybodaeth forol i randdeiliaid er mwyn iddynt allu deall beth sy'n digwydd yn ein moroedd. |
| **Cymru o gymunedau cydlynol** | **Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.**<br>Mae cynllunio morol yn fodd o ymgysylltu â chymunedau'r arfordir. Mae'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar weithgareddau a gynllunnir yn yr amgylchedd morol, neu sy'n digwydd yn yr amgylchedd hwnnw. Bydd polisïau'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd cymunedau'r arfordir i'n cymdeithas genedlaethol ac yn cydnabod eu hanghenion a'u dyheadau. Dylai cynllunio morol roi sylw i atyniad arfordir Cymru a'i bwysigrwydd i gymunedau'r arfordir ac i ymwelwyr fel ei gilydd. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | **Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.**<br>Mae gan Gymru dreftadaeth forol werthfawr a llewyrchus. Mae cynllunio morol yn gyfle i sicrhau bod cynigion yn y dyfodol yn cydnabod diwylliant Cymru, yn gweithio gyda'r diwylliant hwnnw, ac yn cyfrannu ato. Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth ar gael eisoes a bydd hon o fudd mawr i broses benderfynu'r Cynllun. Mae'r dystiolaeth hon yn helpu i sicrhau bod unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro yn cael eu nodi'n gynnar (ac nid yn ystod camau diweddarach) er mwyn rhoi sylw iddynt. Mae hefyd wedi helpu i sicrhau bod ein treftadaeth ddiwylliannol yn cael ei thrysori, ei gwarchod a'i hybu. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | **Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.** Mae proses cynllunio morol Cymru'n dilyn trywydd Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) a Chyfarwyddeb Ewrop ar Gynllunio Gofodol Morol 89/2014. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru. Bydd y Cynllun yn cynnwys polisïau a fydd yn cyfrannu at faterion ehangach fel newid hinsawdd ac a fydd yn cydnabod y gall fod i weithgareddau yn amgylchedd morol Cymru oblygiadau y tu hwnt i Gymru y dylid eu hystyried yn ystod y broses benderfynu. Mae cynllunio morol yn gweithio y tu hwnt i ffiniau ac mae'n adlewyrchu natur gydgysylltiedig ein moroedd a'n hadnoddau naturiol morol. |

# Y Camau Nesaf

Rhaid i gynllunio morol fod yn broses gynhwysol i sicrhau bod pawb sydd â barn ar y ffordd y caiff moroedd Cymru eu defnyddio yn y dyfodol yn cael cyfle i gyfrannu. Mae'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn amlinellu'r cyfleoedd i gyfrannu at y broses o lunio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth fynd ati i ymgynghori ar y cynllun morol drafft, cyn mynd ati i'w fabwysiadu a'i roi ar waith. Mae'r safbwyntiau a fynegir gan randdeiliaid yn ein helpu i fireinio'r cynllun drafft ac i bennu'r ffordd y byddwn yn gwerthuso'r cynllun ac yn adrodd arno.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30442 ISBN digidol: 978 1 4734 8624 9